

Ymfudo

Trosolwg

Yn y Gweithgaredd Cyfoethog hwn, bydd dysgwyr yn:

- ystyried pam mae pobl yn ymfudo ac yn archwilio'r anawsterau y gallent eu hwynebu ;
- dysgu am enghreifftiau o storïau go iawn o glipiau fideo a gwybodaeth ysgrifenedig
- cael cyfleoedd i ymateb yn greadigol i'r thema hon drwy weithgareddau Drama a Dawns.

Cyfoethogi

- cyfle i weithio gydag awduron, newyddiadurwyr, actorion a dawnsyr yn ogystal â sefydliadau cymunedol ffoaduriaid lleol er mwyn cwrdd â phobl sydd wedi gwneud teithiau ymfudo

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dyma brif rannau'r cwricwlwm presennol y mae'r gweithgaredd cyfoethog hwn yn ymdrin â hwy:

Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd: Sgiliau Llythrennedd

Llythrennedd Digidol

Ceir cyfleoedd hefyd i ddatblygu sgiliau o fewn ABCh/Saesneg/Cymraeg a Mathemateg a meysydd eraill o'r cwricwlwm, yn dibynnu ar gyd-destun y gwaith a ddatblygir.

Adnoddau sy'n cael eu cynnwys gyda'r gweithgaredd hwn

Adnodd 1: Trefniant awgrymedig ar gyfer rheoli ffiniau

Adnodd 2: Papurau Manylion Personol

Adnodd 3: Arwyddion (ar gyfer dŵr) mewn nifer o ieithoedd

Adnodd 4: Storiâu fideo gan bobl sydd wedi ymsefydlu yng Nghymru

Adnodd 5: Tasg Rhifedd: Byw ar £5 y dydd

Adnodd 6: Graffiau ac Ystadegau ar Geiswyr Lloches

Adnodd 7: Termau Dawns a dyfeisiau cyfansoddi

Adnodd 8: Siart cylch person cyfan

Adnoddau Ychwanegol y mae angen sicrhau eu bod ar gael

- cês dillad yn llawn gwrthrychau diddorol/eiddo personol y gallai pobl fynd gyda nhw pe bai'n rhaid iddyn nhw adael y wlad
- mynediad i gyfrifiadur a'r rhyngwyd
- nodiadau post it

Tasg 1: Pam mae'n rhaid i gymaint o bobl adael eu cartrefi?	Cydweithredu ac Adnoddau	Fflirrh Posibl
<p>EDRYCH Edrychwch ar y lluniau portread o ymfudwyr a dynnwyd ar groesfannau ffiniau Ewrop ar y ddolen buzzfeed gyferbyn. (Yn ddelfrydol, dylai'r rhain gael eu taflunio ar y bwrdd gwyn neu eu hargraffu er mwyn i chi allu edrych arnynt gyda'ch gilydd fel dosbarth).</p> <p>TRAFOD – beth yw'r stori sy'n sail i'r lluniau hyn? Beth sydd gan y bobl hyn yn gyffredin? Pam mae'n rhaid i gymaint o bobl adael eu cartrefi? Trafodwch ystyron gwahanol y termau ymfudwr, ceisiwr lloches, ffoadur.</p> <p>DARLEN/YMCHWILIO/TRAFOD Mewn grwpiau bach, bydd dysgwyr yn astudio'r Proffiliau Gwlad (gweler dolenni'r BBC yn y golofn nesaf). Rhwng wlad wahanol i bob grŵp ganolbwyntio arni. Gofynnwch iddyn nhw ddarllen proffil y wlad a nodi'r gwahaniaethau rhwng Cymru a'r wlad a roddwyd iddyn nhw fel ffoaduriaid. Gofynnwch i'r grwpiau baratoi cyflwyniad byr ar y wlad a roddwyd iddyn nhw ar gyfer gweddill y dosbarth, gan egluro sut mae'n debyg/wahanol i Gymru gan amlygu unrhyw heriau penodol mae'n eu hwynebu.</p> <p>ADBORTH Bydd pob grŵp yn rhannu eu canfyddiadau gyda gweddill y dosbarth drwy roi cyflwyniad byr ar y wlad a roddwyd iddyn nhw.</p> <p>TRAFOD: Gofynnwch i bawb nodi (ar nodiadau post it) tri gair/rheswm allweddol pam mae pobl yn dewis gadael eu gwledydd. Gofynnwch i bawb roi eu geiriau ar boster mawr / ar wal yr ystafell ddosbarth. Trafodwch fel</p>	<p>Portreadau https://www.buzzfeed.com/katebubacz/portraits-of-migrants?utm_term=.ojpp4WdEB#.daXD9A13N Darllenwch am straeon ffoaduriaid yma: http://www.refugee-action.org.uk/refugee-voices</p> <p>Proffiliau Gwlad Affganistan http://www.bbc.co.uk/news/world-south-asia-12011352 http://www.bbc.co.uk/news/world-south-asia-12011353 Eritrea http://www.bbc.co.uk/news/world-africa-13349078 http://www.bbc.co.uk/news/world-africa-13349075 Iran http://www.bbc.co.uk/news/world-middle-east-14541327 De Swdan http://www.bbc.co.uk/news/world-africa-14069082 Syria http://www.bbc.co.uk/news/world-middle-east-14703856 Cymru http://www.wales.com/about-wales/facts-about-wales</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. cwestiynau rhethregol, ystumiau ac ati</p> <p>LLS4: ymateb i eraill gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud</p> <p>LLG1: ymateb i, ac ystyried perthnasedd ac arwyddocâd gwybodaeth a syniadau a gyflwynwyd iddynt LLG3: gwrando a nodi'r prif bwyntiau ac arddulliau cyflwyno LLC1: gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau grŵp LLC2: cyrraedd consensws a chytuno ar gamau gweithredu</p>

<p>dosbarth. A oes geiriau/teimladau cyffredin yn codi?</p>	<p>http://news.bbc.co.uk/1/hi/world/europe/country_profiles/6233450.stm7</p>	<p>mewn grwpiau</p> <p>Darllen DS2: defnyddio strategaethau darllen i ddehongli DS5: cipddarllen a llithr ddarllen DS8: testunau ar sgrin DD1: darllen testunau newydd DD3: dod o hyd i wybodaeth ychwanegol a'i defnyddio DD4: dod i ddeall testunau'n llawn gan ddefnyddio technegau casglu, dehongli a dadansoddi DD5: cymharu trefn testunau a'u themâu DYD3: cydgasglu, crynhoi a chyfuno DYD4: gwahaniaethu rhwng ffeithiau, rhagfarn a dadl DYD5: adnabod gwahanol ddehongliadau DD6: gwerthuso testunau yn ôl eu hansawdd a pha mor ddefnyddiol ydynt</p> <p>Ysgrifennu YY1: crynhoi ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben YY2: esbonio syniadau'n llawn gan</p>
---	--	--

		<p>bwyso a mesur tystiolaeth YY3: cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion gwahanol YY4: ysgrifennu ar sgrin YS1: addasu strwythurau wrth ysgrifennu YS2: trefnu gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn YI1: iaith briodol YI2: defnyddio geirfa bwrpasol sy'n gyson â chynnwys y pwnc</p>
Tasg 2: Chwarae rôl – rheoli ffiniau	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p>Nod yr ymarfer efelychu drama hwn yw rhoi'r dosbarth yn esgidiau ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n wynebu rheolaeth pasbort, gan roi cyfle i'r disgyblion ystyried yr anawsterau y mae pobl yn eu hwynebu ar hyd y daith ac wrth gyrraedd mewn gwlad newydd.</p> <p>Paratoi: <i>Aildrefnwch ddodrefn yr ystafell ddosbarth ymlaen llaw er mwyn iddi edrych fel maes awyr neu ardal rheoli ffiniau (gweler Adnodd 1 am drefniant awgrymedig). Sicrhewch fod gennych y Papurau Manylion Personol (Adnodd 2) a'r Cês Dillad yn cynnwys eitemau pwysig pobl yn barod).</i></p> <p>Bydd y dysgwyr yn cyrraedd i ganfod bod eu hystafell ddosbarth arferol wedi cael ei thrawsnewid yn ardal rheolaeth pasbort. Wrth ddod i mewn, byddant yn cael papurau manylion personol (Adnodd 2.)</p> <p>DYCHMYGU - Bydd y disgyblion yn treulio eu 5 munud cyntaf yn y lolfa</p>	<p>Ar gyfer yr ymarfer hwn bydd angen y canlynol arnoch:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Adnodd 1: Trefniant Awgrymedig ar gyfer Rheoli Ffiniau ○ Adnodd 2: Papurau Manylion Personol (llungopiwch ddigon ar gyfer un yr un). <i>Gallwch naill ai ddefnyddio papur manylion adnabod gwag ar gyfer pob disgybl y byddant hwy yn ei llenwi (gan ddatblygu eu cymeriad eu hunain) neu dosbarthwch lungopiâu o'r papurau manylion personol wedi'u cwblhau'n barod.</i> ○ Gellir defnyddio lluniau hefyd i 	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. cwestiynau rhethregol, ystumiau ac ati LLS4: ymateb i eraill gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud</p>

<p>ymadael yn edrych ar eu papurau manylion personol ac yn dychmygu eu hunain yn rôl y person hwn. Byddan nhw'n llenwi ac yn cwblhau unrhyw fylchau yn y proffil ar eu papurau manylion personol. (Gallech roi lluniau pasbort hefyd i helpu dysgwyr i gyflawni'r rôl – argraffwch y portreadau o'r ddolen Buzzfeed gyferbyn).</p> <p>Gofynnwch i'r disgyblion osod eu cadeiriau mewn cylch. Rhowch y cês dillad yn cynnwys yr eitemau pwysig yng nghanol y cylch.</p> <p>GWAITH BYRFYFYR: Yn eu tro, bydd y disgyblion yn dewis gwrthrych o'r cês dillad ac yn ei roi i'r person nesaf yn y cylch. Wrth iddyn nhw wneud hynny, byddant yn esbonio (gan ddefnyddio ystumiau'n unig – dim geiriau) sut y caiff ei ddefnyddio.</p> <p>CADAIR BOETH: Yna, bydd pawb yn cyflwyno eu hunain yn eu rôl ac yn esbonio pam y gwnaethant ddewis y gwrthrych penodol hwnnw; sut gallai eu helpu ar eu taith?</p> <p>DARLLEN / YMATEB Darllenwch yr erthygl bapur newydd / straeon gwe i gael rhagor o wybodaeth am y teithiau anodd y mae'n rhaid i bobl eu gwneud er mwyn dianc rhag perygl yn eu gwledydd eu hunain. (Cliciwch ar y dolenni yn y golofn adnoddau gyferbyn)</p> <p>CHWARAE RÔL Meddylwch am straeon pobl rydych wedi darllen amdanyn nhw. Mewn parau, ewch ati i chwarae rôl ffoadur a Swyddog Mewnfudo yn eich tro. Bydd un yn holi a'r llall yn ateb.</p> <p>MYFYRIO/TRAFOD. Ar y diwedd, ystyriwch sut roeddech yn teimlo ym mhob rôl. Beth oedd y cydbwysedd o ran pŵer?</p>	<p>ddatblygu'r rôl. (Gweler y ddolen isod)</p> <p>https://www.buzzfeed.com/katebubacz/portraits-of-migrants?utm_term=.ojpp4WdEB#.daXD9A13N</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Cês dillad o amrywiaeth o eitemau ac eiddo personol y gallai pobl fynd gyda hwy pe bai'n rhaid iddynt adael y wlad (gall yr athro/athrawes ddarparu'r rhain neu gall disgyblion ddod ag eitem yr un o gartref y byddent yn mynd gyda hwy pe baent yn ymfudo). <p>Why We Fled Our Homeland – erthygl ar straeon ffoaduriaid o bapur newydd <i>The Guardian</i></p> <p>http://www.theguardian.com/world/2015/sep/06/refugees-budapest-life-stories-europe-keleti-station</p> <p>Darllenwch am straeon ffoaduriaid pobl yma:</p> <p>http://www.refugee-action.org.uk/refugee-voices</p>	<p>LLS5: cynnal dadl argyhoeddedig, , e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</p> <p>LLG1: gwrando'n ofalus a deall syniadau a gyflwynwyd iddynt</p> <p>LLG3: ymateb i eraill</p> <p>LLC1: cyfrannu at drafodaeth grŵp</p> <p>Darllen</p> <p>DS2: strategaethau i ddeall testunau</p> <p>DS5: ystod o strategaethau darllen</p> <p>DS8: dewis testunau ar sgrin</p> <p>DD1: darllen testunau newydd</p> <p>DD3: dod o hyd i wybodaeth ychwanegol a'i defnyddio</p> <p>DD4: casglu, dehongli a dadansoddi</p> <p>DD5: cymharu testunau</p> <p>DYD3: cydgasglu, crynhoi a chyfuno</p> <p>DYD4: gwahaniaethu rhwng rhagfarn a dadl</p> <p>DYD5: adnabod a gwerthuso dehongliadau</p> <p>DD6: gwerthuso testunau yn ôl pa mor ddefnyddiol a dibynadwy</p>
--	---	--

<p>Ar ddiwedd y wers, bydd y disgyblion yn mynd allan o'r ystafell ddosbarth drwy drosglwyddo eu dogfennau manylion personol a'u gwrthrychau i'r athro sy'n actio fel un o'r gwarchodwyr ffiniau.</p> <p>Gweithgareddau pellach a awgrymir</p> <ul style="list-style-type: none">○ Ysgrifennwch stori fer yn y person cyntaf o safbwynt rhywun sydd wedi cael ei orfodi i ffoi oddi cartref. Dechreuwch yn y canol, ar adeg yr argyfwng.○ Fel arall, darluniwch y stori drwy gelf weledol/dawns fer/fideo/sgetsh ddramatig/geiriau cân.		<p>ydynt</p> <p>Ysgrifennu</p> <p>YY1: crynhoi ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben YY2: esbonio syniadau'n llawn gan bwysu a mesur tystiolaeth YY3: cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion gwahanol YY4: ysgrifennu ar sgrin YS1: addasu strwythurau wrth ysgrifennu YS2: trefnu gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn YI1: iaith briodol YI2: defnyddio geirfa bwrpasol sy'n gyson â chynnwys y pwnc YG1: strwythurau brawddeg YG1: ystod o strwythurau brawddeg YG3: ystod lawn o atalnodi YG7: llawysgrifen sy'n llifo</p>
---	--	--

Tasg 3: Pa heriau mae pobl yn eu hwynebu mewn gwlad newydd?	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p>Nod y dasg hon yw gwneud disgyblion yn ymwybodol o rai o'r heriau ymarferol mae pobl yn eu hwynebu wrth symud gwledydd (megis angen deall iaith wahanol).</p> <p><i>Paratoi: Arddangoswch wahanol arwyddion ar gyfer dŵr (a ddarperir yn Adnodd 4 mewn ieithoedd/sgriptiau gwahanol - Arabeg, Tigrinia, Amhareg, Farsi, Pashto) ar waliau'r ystafell ddosbarth. (Efallai y byddwch am chwyddo'r rhain).</i></p> <p>EDRYCH/DYFALU Bydd y dosbarth yn edrych ar yr arwyddion gwahanol ac yn ceisio dyfalu / datrys yr ystyr. Gwahoddwch y plant (nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf) i ddweud wrth y dosbarth beth yw'r gair am dŵr yn eu mamiaith a'i ysgrifennu ar y bwrdd. Ceisiwch ganfod sut y caiff dŵr ei ysgrifennu mewn Tsieinëeg, Rwseg, Siapanaeg a Hindi. Ychwanegwch y rhain at eich casgliad.</p> <p>TRAFOD / rhannu sut byddech yn ymateb wrth wynebu sgript neu iaith anghyfarwydd. Cyflwynwch y syniad y gallai pobl sy'n cyrraedd gwlad newydd nid yn unig fod yn defnyddio iaith wahanol; gallent hefyd fod yn defnyddio wyddor wahanol hefyd.</p> <p>CREU Gofynnwch i'r disgyblion greu arwydd rhyngwladol newydd ar gyfer dŵr y gallai siaradwyr unrhyw iaith ei ddeall yn hawdd.</p> <p>TRAFOD - Edrychwch ar amrywiaeth o symbolau emoji gwahanol gyda'r dosbarth. Mewn grwpiau bach, bydd myfyrwyr yn dewis 3 a fyddai'n fwyaf defnyddiol yn eu barn nhw i helpu pobl newydd sy'n cyrraedd cymuned na</p>	<p>Adnodd 3: Arwyddion dŵr (ar gyfer dŵr) mewn ieithoedd sgript nad ydynt yn Lladin</p> <p>Lluniau emoji http://getemoji.com</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd</p> <p>LLS2: cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. cwestiynau rhethregol, ystumiau ac ati</p> <p>LLS4: ymateb i eraill gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud</p> <p>LLS5: cynnal dadl argyhoeddedig, , e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</p> <p>LLG1: gwrandao'n ofalus a deall syniadau a gyflwynwyd iddynt LLG3: ymateb i eraill LLC1: cyfrannu at drafodaeth grŵp</p>

allent fod yn deall Cymraeg na Saesneg.

TRAFOD sut y gall ffurfiau gwahanol ar gelfyddyd – megis cerddoriaeth, dawns, syrcas, theatr, celf, ffilm ac animeiddio, pensaernïaeth gyfleu storïau/teimladau/hwyliau heb ddefnyddio iaith. Gofynnwch i bob grŵp wneud y canlynol:

- Dewis enghraifft o gelfyddyd (gweler enghreifftiau uchod) nad oes angen geiriau arni i gyfleu stori / hwyl y gellir ei rhannu gyda gweddill y dosbarth yn ystod y wers nesaf. Gofynnwch iddyn nhw egluro pam y gwnaethant ddewis yr enghraifft benodol hon.
- Trafod pa gelfyddyd/cerddoriaeth/ffilm y byddent yn ei dangos mewn ardal rheolaeth pasbort a allai helpu i groesawu newydd-ddyfodiaid i Gymru heb ddefnyddio iaith.

Gweithgaredd pellach a awgrymir

- Dysgwyr i ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain i ysgrifennu 'negeseuon emoji' i helpu newydd-ddyfodiaid i'w cymuned i ganfod eu ffordd o gwmpas a chael mynediad i wasanaethau allweddol (e.e. ysbyty/gorsaf heddlu/ysgol)
- Edrychwch ar luniau yn nofel afaelgar Shaun Tan *The Arrival* i ysgogi trafodaeth bellach ynghylch ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac ymfudwyr – e.e. gallai'r tudalennau ar 'archwilio' a phrynu 'tocyn' fod yn berthnasol iawn

<http://www.shauntan.net/books/the-arrival.html>

Tasg 4: Pobl go iawn: straeon go iawn	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p>EDRYCH/GWRANDO Edrychwch ar straeon fideo pobl sydd wedi ceisio lloches yng Nghymru ac sydd bellach wedi ymsefydlu yma (Adnodd 4)</p> <p>TRAFOD – Trafodwch yr amodau yng ngwledydd cartref Sam, George a Sam Shyamala; beth maent yn ei golli fwyaf; eu swydd gartref a'r hyn maent yn ei wneud yng Nghymru.</p> <p>DYCHMYGU – Dychmygwch mai chi yw Sam, George neu Sam Shyamala.</p> <p>YSGRIFENNU – Ysgrifenwch lythyr at eich ffrind gorau gartref yn disgrifio eich argraff gyntaf o Gymru, ei phobl, y bwyd a'r arferion. Ystyriwch beth fyddai eu barn am eich tref/ardal chi. Beth sy'n fwyaf heriol? Beth yw'r peth gorau am fod yma?</p> <p>DARLLEN - Darllenwch straeon go iawn pobl sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru. Gweler y ddolen gyferbyn ar gyfer Casgliad y Werin Cymru – chwiliwch am Mr Lacita Reid, Mrs Vernester Cyril a Mr Roy Grant – pobl Affricanaidd-Caribiaidd sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru).</p> <p>TRAFOD – Trafodwch fel dosbarth y rhesymau pam mae unigolion yn gadael eu mamwlad ac yn teithio i wlad newydd. Crëwch restr o ffactorau ar y bwrdd. Yna defnyddiwch yr arf dysgu Diamwnt Naw i'ch helpu i'w blaenoriaethu yn nhrefn pwysigrwydd.</p> <p>HER RHIFEDD: Sut mae Prydain yn helpu ceiswyr lloches? Defnyddiwch adnoddau 5 a 6 ar gyfer tasgau rhifedd sy'n gysylltiedig â'r thema hon ac ymarferion ymdrin â data er mwyn helpu i archwilio'r cwestiwn hwn.</p>	<p>Adnodd 4: Straeon Fideo Ffoaduriaid sy'n byw yng Nghymru</p> <p>https://www.casgliadywerin.cymru/</p> <p><i>Barddoniaeth</i> – gan ac am ffoaduriaid http://www.warscapes.com/poetry/refugees-some-poems</p> <p>http://www.thecornerhouse.org.uk/resource/listen-refugees-story</p> <p>http://knowledgex.camh.net/health_equity/Pages/RefugeeNarratives.aspx</p> <p>Adnodd 5: Byw ar £5 y dydd</p> <p>Adnodd 6: Graffiau ac Ystadegau Ceiswyr Lloches</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd LLS2: cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. cwestiynau rhethregol, ystumiau ac ati</p> <p>LLS4: ymateb i eraill gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud</p> <p>LLS5: cynnal dadl argyhoeddedig, , e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</p> <p>LLG1: gwrando'n ofalus a deall syniadau a gyflwynwyd iddynt LLG3: ymateb i eraill LLC1: cyfrannu at drafodaeth grŵp</p>

<p>AILADRODDWCH Y STORI'N GREADIGOL</p> <p>Dewiswch un o'r bobl rydych wedi dysgu amdanynt sydd â'r stori fwyaf emosiynol yn eich barn chi. Ailadroddwch ei stori drwy farddoniaeth, cân, darlun, paentiad neu gartŵn.</p>		<p>Darllen</p> <p>DS2: strategaethau i ddeall testunau</p> <p>DS5: ystod o strategaethau darllen</p> <p>DS8: dewis testunau ar sgrin</p> <p>DD1: darllen testunau newydd</p> <p>DD3: dod o hyd i wybodaeth ychwanegol a'i defnyddio</p> <p>DD4: casglu, dehongli a dadansoddi</p> <p>DD5: cymharu testunau</p> <p>DYD3: cydgasglu, crynhoi a chyfuno</p> <p>DYD4: gwahaniaethu rhwng rhagfarn a dadl</p> <p>DYD5: adnabod a gwerthuso dehongliadau</p> <p>DD6: gwerthuso testunau yn ôl pa mor ddefnyddiol a dibynadwy ydynt</p> <p>Rhifedd</p> <p>Datblygu ymresymu rhifyddol</p> <p>CA3.1 trosglwyddo sgiliau</p> <p>CA3.2 trefnu'r camau perthnasol</p> <p>CA3.3 dewis technegau priodol</p> <p>CA3.4. strategaethau</p>
---	--	--

		<p>meddwl/ysgrifenedig - cyfrifiannell. CA3.5 nodi/cael gwybodaeth CA3.10 Nodi a dewis gwybodaeth briodol</p> <p>CA311: egluro canlyniadau a gweithdrefnau'n gywir CA316: dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd bywyd go iawn gan gynnwys y rheini a ddefnyddir yn y cyfryngau - gan adnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol CA317: cymhwyso strategaethau gwirio CA3.18: dehongli atebion yng nghyd-destun y broblem CA3 19: defnyddio data i ddod i gasgliadau, a chydabod y gall rhai casgliadau fod yn gamarweiniol. CA3.21: dehongli gwybodaeth fathemategol; defnyddio graffiau, diagramau a data i ddod i gasgliadau, gan gynnwys trafod cyfyngiadau data.</p>
--	--	--

Tasg 5: Defnyddio symudiadau i gyfleu teimladau	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p><i>Yn llythrennol, mae ymfudo yn golygu ‘pobl yn symud o un lle i un arall’. Mae’r dasg hon yn canolbwyntio ar symud a sut y gall dawns gyfleu emosiynau. Gall pawb symud. Nid oes angen i chi fod yn athro/athrawes ddaawns hyfforddedig i arwain y gweithgaredd hwn ac mae’n addas i fechgyn a merched o bob gallu. Yr unig beth fydd angen arnoch yw gwagle addas – neuadd yr ysgol, stiwdio ddrama neu neuadd chwaraeon.</i></p> <p>CYNHESU A CHYFARCH</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ysgwyd llaw: Gofynnwch i’r dosbarth gerdded o amgylch y gwagle gan sicrhau nad ydynt yn taro i mewn i’w gilydd. Pan fyddant yn symud yn agos at berson arall, dylen nhw ysgwyd llaw, gwenu a symud ymlaen. Aildroddwch hyn sawl gwaith gyda phobl wahanol. ○ Amrywiwch yr ymarfer drwy ymgrymu pan fyddwch yn mynd yn agos at rywun (dychmygwch eich bod yn Japan) neu wneud ‘high five’ (rydych yn Efrog Newydd). ○ Amrywiwch gyflymder yr ymarfer cynhesu <p>TRAFOD - Sut mae eich gweithred/cyfarchiad yn effeithio ar eich hwyliau? (A yw’n gyfeillgar, ffurfiol, gorfoleddus?)</p> <p>EMOSIYNAU</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ Ailadroddwch yr ymarfer ond y tro hwn, pan fyddwch yn agos at rywun, arbrofwch gydag ystumiau, siapiau’r corff neu symudiadau gwahanol i adlewyrchu’r ansoddair pan fydd yr athro yn ei ddweud yn uchel. Rhwch gynnig ar ‘wedi syfrdanu....cyffrous....., ofnus.... amheus.... blinedig....wrth eich bodd... trist.... 	<p>Gallech wahodd dawnsiwr neu goreograffydd proffesiynol i arwain gweithdy</p> <p>Cysylltwch ag ysgolion dawns/sefydliadau dawns lleol</p> <p>People Dancing http://www.communitydance.org.uk/about-community-dance.html</p> <p>Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru http://www.ndcwales.co.uk/cy/cyfrannwch/</p> <p>Ballet Cymru http://welshballet.co.uk/hafan/</p> <p>Edrychwch ar fap aelodau gwefan Creu Cymru i ddod o hyd i leoliad sy’n cynnig rhaglenni dawns yn eich ardal chi: http://www.creucymru.com/</p> <p>Mae gan Theatr, Dawns a Pherfformio Cymru restr A-Z ddefnyddiol http://www.theatre-wales.co.uk/companies/</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd</p> <p>LLS2: cyflwyno pynciau a syniadau’n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio’r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. cwestiynau rhethregol, ystumiau ac ati</p> <p>LLS4: ymateb i eraill gan addasu’r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud</p> <p>LLS5: cynnal dadl argyhoeddedig, , e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</p> <p>LLG1: gwrando’n ofalus a deall syniadau a gyflwynwyd iddynt LLG3: ymateb i eraill</p>

yn grac....pryderus....hapus'

- Anogwch y disgyblion i ystyried sut mae **lefel** (isel/uchel) a **maint** (mawr/bach) y symudiad yn addas i deimladau gwahanol. Ceisiwch wrthgyferbynnu cropian â neidio'n uchel yn yr awyr er enghraifft. Ystyriwch **gyflymder** y symudiad hefyd (e.e. i gyfleu cyffro neu flinder); arbrofwch gyda siapiau agored neu gaeedig i ddangos cyfeillgarwch neu amheuaeth. Bydd **pwysau**'r symudiad hefyd yn awgrymu bwriad/emosiwn – gydag ysgafnder yn adlewyrchu hwyl dibryder, hapus a symudiadau trwm, isel, trwsogl yn awgrymu hwyl tywyllach, tristach.
- Archwiliwch eithafion yr uchod a rhowch gynnig ar symudiadau sy'n cael eu harwain gan rannau anarferol o'r corff (e.e. penelin, pen-glin)

DYFEISIO – Dyfeisiwch ddilyniant byr mewn parau sy'n defnyddio symudiad i gyfleu teimladau sy'n gysylltiedig â gwneud taith sy'n newid bywyd. Gallai syniadau posibl gynnwys:

- Gadael eich mamwlad – dawns drist, mentro i wlad newydd, gadael teulu annwyl ar ôl
- Yn yr ardal rheolaeth pasbort – dawns nerfus, yn llawn symudiadau pigog, ansicr, ofnus, aflonydd. Gallai hyn fod ar eich eistedd.
- Cyrraedd eich cyrchfan – gallai hon fod yn ddawns hapus, llawn dathliad a rhyddhad neu gallai adlewyrchu ansicrwydd cyrraedd mewn gwlad anghyfarwydd. A oes croeso i chi?

PERFFORMIO - Perfformiwch eich dilyniannau byr i'r dosbarth. Bydd y gynulleidfa yn rhannu ei hymateb. A wnaeth y dawnsfeydd gyfleu emosiynau'n effeithiol?

LLC1: cyfrannu at drafodaeth grŵp

Tasg 6: Adrodd stori drwy ddawns	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p>Mae'r dasg hon yn caniatáu i ddisgyblion adrodd stori taith drwy symudiadau. Cyfeiriwch at Adnodd 7 i weld rhai termau dawns a dyfeisiau cyfansoddi a allai helpu.</p> <p>DAWNS/DYFEISIO Croesi afon Mewn parau, gan ddechrau ar un ochr o'r ystafell, dechreuwch drwy ysgwyd dwylo. Defnyddiwch y cysylltiad dwylo hwn i helpu'ch gilydd ar draws yr afon. Ceisiwch ganfod eich ffordd ar draws, gan gydbwysu ar gerrig camu wrth i chi fynd. Gwnewch eich taith ar draws yr ystafell. Amrywiwch eich lefelau a maint eich camau. Efallai y bydd angen i chi neidio o un garreg i'r llall. Ceisiwch beidio â chwympto i mewn. Faint o amser mae'n ei gymryd i gyrraedd ochr arall yr afon? Pan fyddwch yn cyrraedd ochr arall yr ystafell, ysgwyddwch ddwylo eto, dewch o hyd i bartner gwahanol ac ailadroddwch.</p> <p>TRAFOD/DYFEISIO Yn ogystal â chyfeirio at bobl yn symud, defnyddir y term Ymfudo hefyd i ddisgrifio symudiad tymhorol adar neu anifeiliaid o un rhanbarth i'r llall. Mewn grwpiau o tua 6, dewiswch aderyn neu anifail sy'n ymfudo (e.e. gwenoliaid, gnwod, crancod, pengwiniad) a dyfeisiwch ddilyniant dawns byr yn seiliedig ar eu hymfudiad. Edrychwch ar glipiau o'ch aderyn/anifail yn symud. Ceisiwch ddangos eu symudiadau yn eich dawns. Bydd pob aelod o'r grŵp yn cyfrannu symudiad. Meddyliwch am gyflymder a maint y symudiad; pwysau eich anifail a pha siâp y gallech ei wneud gyda'ch gilydd fel praidd/gyr. Rhowch eich symudiadau at ei gilydd i wneud cyfres o 6 symudiad y gallwch eu hailadrodd wrth i chi symud o un ochr o'r ystafell i'r llall. Ceisiwch gydsymud fel grŵp ar yr un pryd. Arbrowfch ag ymadroddion</p>	<p>Adnodd 7: termau dawns a dyfeisiau cyfansoddi</p> <p>Gallech wahodd dawnsiwr neu goreograffydd proffesiynol i arwain gweithdy</p> <p>Cysylltwch ag ysgolion dawns lleol / sefydliadau dawns cymuneol</p> <p>People Dancing http://www.communitydance.org.uk/about-community-dance.html</p> <p>Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru Dance Company Wales http://www.ndcwales.co.uk/cy/cyfrannwch/</p> <p>Ballet Cymru http://welshballet.co.uk/</p> <p>Edrychwch ar fap aelodau gwefan Creu Cymru i ddod o hyd i leoliad sy'n cynnig rhaglenni dawns yn eich ardal chi: http://www.creucymru.com/</p> <p>Mae gan Theatr, Dawns a Pherfformio Cymru restr A-Z ddefnyddiol http://www.theatre-wales.co.uk/companies/</p>	<p>Llafaredd LLS2: cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. cwestiynau rhethregol, ystumiau ac ati</p> <p>LLS4: ymateb i eraill gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud</p> <p>LLS5: cynnal dadl argyhoeddedig, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</p> <p>LLG1: gwrando'n ofalus a deall syniadau a gyflwynwyd iddynt LLG3: ymateb i eraill LLC1: cyfrannu at drafodaeth grŵp</p>

a gaiff eu perfformio ar y cyd (gyda'i gilydd ar yr un pryd) ac mewn canon (yr un symudiadau'n cael eu gwneud mewn cyfres neu un ar ôl y llall, yn debyg i 'Mexican wave'). Defnyddiwch Adnodd 7 i archwilio dyfeisiau cyfansoddi dawns amrywiol yn dibynnu ar lefel y grŵp.

PERFFORMIO/ADBORTH

Rhannwch eich dilyniannau gyda gweddill y dosbarth. Arfarnwch bob dawns a nodwch unrhyw symudiadau penodol sy'n effeithiol. A all y dosbarth ddyfalu'r anifail/aderyn o'r ddawns?

Symud

DYFEISIO/CREU Mewn grwpiau bach, crëwch ddilyniant teithio gwahanol (wedi'i ysbrydoli o bosibl gan un o'r straeon ymfudo gan bobl a archwiliwyd mewn sesiwn flaenorol). Gallech wau i mewn ac allan o'ch gilydd, o dan ac uwchben eich gilydd, gan deithio tuag at eich gilydd ac i ffwrdd oddi wrth eich gilydd. Ceisiwch gynnwys enghreifftiau o gydbwysu, lefelau gwahanol a chynnal eich gilydd. Datblygu stori: Penderfynwch beth yw'r berthynas rhyngoch. Pam eich bod yn gadael? I ble rydych yn teithio? A oes heriau a rhwystrau ar hyd y ffordd? Pwy sy'n cynnal pwy a pham fod hyn yn bwysig? Allwch chi gyfleu teimlad y grŵp ar y daith? A yw'n newid pan fyddwch yn cyrraedd eich cyrchfan?

YMARFER a PHERFFORMIO i weddill y dosbarth **ADBORTH/TRAFOD**

A all eich cynulleidfa ddeall y stori o'ch dawns?
Pa ran o'r ddawns oedd yn effeithiol a pham?
Beth mae creu stori yn ei ychwanegu at y ddawns?
Sut y gellir gwella'r ddawns?
Beth weithiodd yn dda iawn yn y ddawns?

Tasg 7: Sut allwn ni groesawu pobl i'n cymuned?	Cydweithredu ac Adnoddau	FflIRh
<p><i>Nod y dasg hon yw annog dysgwyr i feddwl beth fyddai ei angen arnynt pe baent yn symud i wlad/cymuned newydd a sut y gallem roi gwell croeso a chefnogaeth i ffoaduriaid sy'n cyrraedd yng Nghymru.</i></p> <p>TRAFOD anghenion dynol sylfaenol:- bwyd a dŵr; cysgod; dillad – beth arall fydddech yn ei ystyried fel angen sylfaenol? Casglwch eich syniadau at ei gilydd ar y bwrdd/taflen fawr o bapur. Cyflwynwch y siart cylch 'person cyfan' (Adnodd 8) sy'n rhannu anghenion yn 5 categori – corfforol, emosiynol, ysbrydol, cymdeithasol, diwylliannol.</p> <p>Mewn grwpiau bach, gofynnwch i ddisgyblion gategoreiddio'r anghenion canlynol yn 5 categori troswaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> ○ cyfathrebu â'ch teulu; ○ mynediad i ffôn symudol/y rhyngwyd; ○ dod i adnabod yr ardal; ○ dysgu'r iaith/ieithoedd lleol; ○ gwybod am y lleoedd gorau i gyflawni hobiau/diddordebau; ○ ffurfio cyfeillgarwch; ○ dysgu am draddodiadau lleol, arferion, hamdden; diwylliant; ○ mynychu addoldy; ○ mynd i'r llyfrgell; ○ siopa am fwydydd; ○ chwaraeon. <p>TRAFOD A oes rhai pethau'n bwysicach nag eraill? A oes angen cydbwysedd arnoch ar draws y pum maes? Ychwanegwch unrhyw anghenion eraill a fyddai'n bwysig i'ch grŵp.</p>	<p>Adnodd 8: Siart Cylch y Person Cyfan</p>	<p>Llythrennedd Llafaredd</p> <p>LLS2: cyflwyno pynciau a syniadau'n eglur gan ddefnyddio iaith ffurfiol ac amrywio'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud er mwyn ennyn diddordeb y gwrandawyr, e.e. cwestiynau rhethregol, ystumiau ac ati</p> <p>LLS4: ymateb i eraill gan addasu'r hyn y maent yn ei ddweud a sut maent yn ei ddweud</p> <p>LLS5: cynnal dadl argyhoeddedig, , e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl</p> <p>LLG1: gwrando'n ofalus a deall syniadau a gyflwynwyd iddynt LLG3: ymateb i eraill LLC1: cyfrannu at drafodaeth grŵp</p>

HER CROESAWU'R GRŴP

Mae eich canolfan ffoaduriaid leol wedi gofyn i'ch ysgol am help i groesawu ffoaduriaid i'r ardal. Gofynnwyd i chi greu 'cês dillad/bag croesawu' i rywun sy'n cyrraedd eich cymuned. Dylai'r cynnwys ddiwallu anghenion y 'person cyfan' ac mae gennych gyllideb o £150 fesul cês dillad. Trafodwch a phenderfynwch yn eich grŵp beth fydddech yn ei gynnwys. Beth fydddech yn ei brynu? Beth allech chi ei ddarparu/wneud sydd am ddim yn ddefnyddiol? Crëwch eich rhestr o gynnwys ynghyd â dadansoddiad o'ch gwariant.

RHOI ADBORTH/RHANNU eich syniadau am becynnau croeso gyda gweddill y dosbarth.

Gweithgareddau estynedig

- YSGRIFENNU taflen/canllaw ar-lein sy'n rhoi gwybodaeth am eich ardal leol er mwyn helpu newydd ddyfodiad. Dylai gynnwys map yn dangos unrhyw gyfleusterau allweddol y gallai fod eu hangen ar yr unigolyn.
- YSGRIFENNU l;ythyr anffurfiol, cyfeillgar i'r newydd ddyfodiad, yn cyflwyno eich hun ac yn ei groesawu i'r ardal leol. Esboniwch beth rydych wedi'i gynnwys yn eich cês dillad a pham.
- ARCHWILIO gwaith yr artist o Cuba, Tania Bruguera, a oedd ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Artes Mundi yng Nghymru ac yr oedd wedi cynnwys *Immigrant Respect Campaign* fel rhan o'i gwaith. (gweler y ddolen gyferbyn). Darllenwch ei maniffesto ar gyfer ymfudwyr a phenderfynwch pa rai yw'r elfennau pwysicaf.
- Crëwch faniffesto ar gyfer eich ysgol eich hun – beth fyddwch chi'n ei gynnwys?

<http://www.artesmundi.org/artists/tania-bruguera>

Darllen

DS2: strategaethau i ddeall testunau
DS5: ystod o strategaethau darllen
DS8: dewis testunau ar sgrin
DD1: darllen testunau newydd
DD3: dod o hyd i wybodaeth ychwanegol a'i defnyddio
DD4: casglu, dehongli a dadansoddi
DD5: cymharu testunau
DYD3: cydgasglu, crynhoi a chyfuno
DYD4: gwahaniaethu rhwng rhagfarn a dadl
DYD5: adnabod a gwerthuso dehongliadau
DD6: gwerthuso testunau yn ôl pa mor ddefnyddiol a dibynadwy ydynt

		<p>Ysgrifennu</p> <p>YY1: crynhoi ac esbonio'n fanwl fel y bo'n briodol at y diben</p> <p>YY2: esbonio syniadau'n llawn gan bwysu a mesur tystiolaeth</p> <p>YY3: cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu ysgrifennu at ddibenion gwahanol</p> <p>YY4: ysgrifennu ar sgrin</p> <p>YS1: addasu strwythurau wrth ysgrifennu</p> <p>YS2: trefnu gwybodaeth er mwyn rhoi adroddiad clir a chyflawn</p> <p>YI1: iaith briodol</p> <p>YI2: defnyddio geirfa bwrpasol sy'n gyson â chynnwys y pwnc</p> <p>YG1: strwythurau brawddeg</p> <p>YG1: ystod o strwythurau brawddeg</p> <p>YG3: ystod lawn o atalnodi</p> <p>YG7: llawysgrifen sy'n llifo</p>
--	--	--

Gweithgareddau pellach a awgrymir

Ymchwiliwch/edrychwch am wybodaeth am **Good Chance** – gwagle theatr yng ngwersyll y ffoaduriaid yn Calais. <http://goodchance.org.uk/> Pam sefydlwyd y theatr? Ydych chi'n meddwl yr oedd yn syniad da? Pam?

Darllenwch y ddrama, '**Scattered**' a ysgrifennwyd gan y dramodydd o Gymru, Tim Baker, ar gyfer Theatr Pobl Ifanc Theatr Clwyd. Mae'r ddrama'n canolbwyntio ar Yasser, ffoadur yn ei ardegau o Syria, a'r cyfeillgarwch sy'n datblygu yn dilyn cyfarfod annisgwyl ag Owen (Cymro yn ei ardegau) ar randir gwag yn ystod gwyliau'r haf. Maent yn canfod bod ganddynt fwy yn gyffredin nag yr oeddent yn ei feddwl. Trafodwch y themâu mae'r ddrama'n eu harchwilio neu actiwch olygfeydd byrion ohoni. [Scattered](#)

Asesu mewn perthynas â'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd

Gallai'r dysgwyr arddangos nifer o elfennau ac agweddau ar y Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd wrth iddynt wneud y gweithgaredd hwn. Dangosir prif feysydd ffocws y gweithgaredd yn y tablau isod.

Llythrennedd			
Llinyn	Elfen	Agwedd	
Llafaredd ar draws y cwricwlwm	Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	
		Gwranddo	
		Cydweithio a thrafod	
Darllen ar draws y cwricwlwm	Dod o hyd i wybodaeth, ei dewis a'i defnyddio Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Strategaethau darllen	
		Darllen a deall	
		Ymateb a dadansoddi	
Ysgrifennu ar draws y cwricwlwm	Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr	
		Strwythur a threfn	
	Ysgrifennu'n gywir	laith	
		Cystrawen; Atalnodi; Sillafu; Llawysgrifen	

Rhifedd	
Llinyn	Elfen
Datblygu ymresymu rhifyddol	Adnabod prosesau a chysylltiadau
	Cynrychioli a chyfathrebu
	Adolygu
Defnyddio sgiliau rhif	Defnyddio ffeithiau rhif a'r berthynas rhwng rhifau
	Ffracsiynau, degolion, canrannau a chymhareb
	Cyfrifo gan ddefnyddio dulliau meddwl ac ysgrifenedig
	Amcangyfrif a gwirio
	Rheoli arian
Defnyddio sgiliau mesur	Hyd, pwysau/màs, cynhwysedd
	Amser
	Tymheredd
	Arwynebedd a chyfaint; Ongl a safle
Defnyddio sgiliau data	Casglu a chofnodi data; Cyflwyno a dadansoddi data; Dehongli canlyniadau